# Triniaeth twll clo i gynaeafu gwythïen saffenaidd ar gyfer grafftiad i ddargyfeirio'r rhydwelïau coronaidd

Mehefin 2014

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Mae'r driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio’n ddigon da i'w defnyddio yn y GIG.

Mae NICE yn gofyn i weithwyr iechyd proffesiynol anfon gwybodaeth am bawb a gaiff y driniaeth a'r hyn sy'n digwydd iddynt wedyn i Gronfa Ddata Ganolog y DU ar gyfer Archwilio Llawdriniaethau'r Galon, fel y gellir profi diogelwch y driniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio dros amser.

### Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio'r hyn y mae cael y driniaeth hon yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl â chi. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Dylai hyn oll ddigwydd cyn i chi benderfynu a ydych am gael y driniaeth hon ai peidio.

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol ofyn i chi a ellir casglu manylion am eich triniaeth.

### Sylwadau eraill gan NICE

Dywedodd NICE fod hyfforddiant a phrofiad rheolaidd yn bwysig ar gyfer unrhyw glinigydd sy'n cyflawni'r driniaeth hon. Nododd NICE sylwadau cadarnhaol gan gleifion am eu profiadau o'r driniaeth hefyd.

## Y cyflwr

Clefyd rhydwelïau coronaidd yw pan fydd un neu fwy o'r rhydwelïau sy'n cludo gwaed i gyhyr y galon (rhydwelïau coronaidd) yn culhau neu'n cael eu rhwystro o ganlyniad i fraster sydd wedi cronni. Gall achosi poen yn y frest (angina), trawiad ar y galon a methiant ar y galon.

Mae grafftiad i ddargyfeirio’r rhydwelïau coronaidd (a elwir weithiau yn CABG) yn un ffordd o'i drin. Caiff pibell waed iach ei chymryd o ran arall o'r corff a'i

chysylltu i'r rhydweli afiach yn y galon fel bod llif y gwaed i'r galon yn mynd heibio'r rhwystr. Yr wythïen saffenaidd yn y goes yw'r bibell waed a ddefnyddir gan amlaf. Fel arfer, caiff yr wythïen saffenaidd ei thynnu drwy wneud un neu fwy o doriadau hir ar hyd y goes (techneg 'agored').

Mae NICE wedi ystyried defnyddio triniaeth twll clo i gynaeafu gwythïen saffenaidd fel ffordd arall o dynnu'r wythïen.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

## Y driniaeth

Caiff triniaeth twll clo i gynaeafu gwythïen saffenaidd ei chynnal o dan anesthetig cyffredinol ar yr un pryd a'r grafftiad i ddargyfeirio'r rhydweli goronaidd. Caiff endosgop (tiwb hyblyg tenau gyda chamera ar y pen) ei roi i mewn drwy doriad bach ger y pen-glin. Weithiau caiff nwy carbon deuocsid ei chwythu o dan y croen er mwyn helpu i wneud lle o amgylch yr wythïen. Yna, mae'r clinigwr yn defnyddio'r endosgop i weld y wythïen ac i'w thynnu gyda chyn lleied o niwed â phosibl i'r goes. Caiff rhwymyn cywasgu ei roi ar y goes i leihau gwaedu a chleisio cymaint â phosibl. Caiff gweddill y llawdriniaeth ei chynnal yn yr un ffordd ni waeth pa ffordd y caiff yr wythïen ei thynnu.

## Manteision a risgiau

Pan edrychodd NICE ar y dystiolaeth, penderfynodd fod y driniaeth yn gweithio'n dda a'i bod yn ddigon diogel i'w defnyddio yn y GIG. Roedd y naw astudiaeth a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys cyfanswm o 271,018 o gleifion.

Yn gyffredinol, dangoswyd y manteision canlynol gyda thriniaeth twll clo i gynaeafu gwythïen saffenaidd:

- llai o boen yn y coesau nag wrth ddefnyddio'r dechneg 'agored'.

Yn gyffredinol, o ran marwolaethau yn y tymor canolig, yr angen i ailadrodd y broses grafftio a thrawiadau ar y galon, roedd y canlyniadau'n debyg iawn p'un a ddefnyddiwyd y dechneg 'agored' neu dwll clo i gynaeafu gwythiennau i'w grafftio.

Dangosodd yr astudiaethau fod risgiau triniaeth twll clo i gynaeafu gwythïen saffenaidd yn cynnwys:

- heintiau clwyf y goes, ond llai nac a gafwyd gan ddefnyddio'r dechneg 'agored'
- cymhlethdodau sy'n ymwneud â'r clwyf yr oedd angen rhagor o driniaeth o'u herwydd, ond yn llai aml nac a gafwyd gan ddefnyddio'r dechneg 'agored'
- mewn achosion prin, problemau a achoswyd gan swigod mawr o garbon deuocsid yn y corff, a gafodd eu datrys gyda thriniaeth.

Os hoffech wybod mwy am yr astudiaethau, gweler y canllaw. Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

## Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Egluro termau meddygol

### Yr wythïen saffenaidd

Yr wythïen sy'n rhedeg o'r pigwrn i'r werddyr.

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae canllaw ymyriadau NICE yn cynghori'r GIG ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN 978-1-4731-0711-3